**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

SeneddHinsawdd@senedd.cymru


25 Ionawr 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ac i ddangos y cynnydd sylweddol yr ydym wedi'i wneud ers ein hymateb blaenorol i adroddiad y Pwyllgor ar ein Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer y Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (Mawrth 2023).

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar y 21 argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor ar seilwaith gwefru cerbydau trydan ynghlwm. Mae'r diweddariad yn egluro bod rhagolygon newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cerbydau trydan yng Nghymru wedi'u datblygu i adlewyrchu galw'r farchnad.

Mae'r adroddiad diweddaraf gan yr Adran Drafnidiaeth yn dangos bod nifer y mannau gwefru cerbydau trydan yng Nghymru wedi cynyddu 68% bob blwyddyn ac mai dim ond Llundain a'r Alban sydd â mwy o seilwaith fesul pen y boblogaeth. Mae'r llinell goch doredig ar y graff isod yn dangos y cynnydd hwn.




[Ystadegau dyfeisiau gwefru cerbydau trydan: Hydref 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)](https://www.gov.uk)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr mannau gwefru yn y sector preifat a'u cefnogi i gyflwyno darpariaeth gwefru ddigonol ar gyfer seilwaith cerbydau trydan ledled Cymru, gan gydnabod y bydd hyn yn helpu i gynyddu'r nifer sy'n defnyddio cerbydau trydan.

O ystyried y cyfyngiadau cyllidebol a chapasiti y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd, dros y misoedd nesaf byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu mecanweithiau a fydd yn cymell y sector preifat i osod a gweithredu seilwaith gwefru pan fo methiant y farchnad wedi'i nodi.

Yn gywir



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change